**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**17eg Medi 2012**

**YR OPSIYNAU O RAN Y GYLLIDEB 2013-14**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cytuno ar argymhellion y Panel Gweithredol i'r Awdurdod Tân ac Achub o ran y rhagdybiaethau i'w defnyddio yn y broses o osod y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14. Caiff y gwaith hwn ei wneud yn ystod Medi a Hydref er mwyn gallu cyflwyno cyllideb ddrafft i'w chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn Rhagfyr 2012.

## Y Cefndir

2 Rhaid i'r gwaith o lunio'r gyllideb ar gyfer 2013-14 gael ei wneud yng nghyd-destun y strategaeth ariannol tymor canolig tair blynedd y cytunodd yr Awdurdod Tân ac Achub arni yn Rhagfyr 2010. Ar y pryd, penderfynodd yr Aelodau rewi cyllideb refeniw flynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am dair blynedd tan ddiwedd 2013-14. Yn nhermau arian parod gwirioneddol, roedd hyn yn gofyn am wneud arbedion o 7.5% er mwyn ariannu costau disgwyliedig ac anochel. Roedd y costau hyn yn cynnwys chwyddiant cyffredinol, yn arbennig cost tanwydd a chost benthyca darbodus er mwyn cwrdd ag ymrwymiadau penderfyniadau a wnaed o'r blaen ynglŷn â gwariant cyfalaf. Felly, roedd angen i'r Awdurdod wneud arbedion o £2.4 miliwn dros gyfnod o dair blynedd.

3 Yn y cyfarfod arbennig o'r Awdurdod a gynhaliwyd ar 10fed Rhagfyr 2010, cyfarwyddodd yr Aelodau fod yr arbedion hyn i ddod ar ffurf gwahanol becynnau o newidiadau yn y Gwasanaeth drwyddo draw. Ar ôl ystyried yn ofalus, penderfynodd yr Awdurdod y dylai'r arbedion hyn ddod allan o'r gyllideb ar gyfradd hafal o £800,000 y flwyddyn.

4 Felly, cymerwyd £800,000 allan o'r gyllideb sylfaen y llynedd, £800,000 arall eleni, ac mae disgwyl £800,000 arall i ddod allan yn 2013-14 gan roi cyfanswm o £2.4 miliwn o ostyngiad.

5 Yn 2011-12 (Blwyddyn 1), sicrhawyd yr £800,000 cyntaf gan yr Awdurdod trwy wneud gostyngiad cymesur yn y gwariant dewisol, gweithgarwch diogelwch cymunedol, costau staff yr ochr gefnogol, ac ailstrwythuro'r gofal swyddogion a arweiniodd at wyth yn llai o swyddi swyddogion.

6 Eleni, sef 2012-13 (Blwyddyn 2), mae'r Awdurdod ar y trywydd i sicrhau'r ail £800,000 trwy ostyngiad yn y gwariant dewisol, gweithgarwch diogelwch cymunedol, costau staff yr ochr gefnogol, a chael ffordd newydd o gylchrestru dyletswyddau'r diffoddwyr tân amser cyflawn fel bod 22 yn llai o swyddi diffoddwyr tân.

## Gwybodaeth

7 Yn y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2013-14 (Blwyddyn 3), disgwylir y bydd y gyllideb sylfaen £800,000 yn llai eto. Gwneir hyn trwy leihau'r gyllideb ar gyfer diogelwch cymunedol £50,000 arall, gostwng nifer y swyddi staff yr ochr gefnogol £180,000, a chael £500,000 arall trwy'r trefniadau cylchrestru wrth i ddiffoddwyr tân adael a pheidio â chyflogi rhai yn eu lle. Bydd y ffigwr o £70,000 sydd ar ôl yn cael ei dynnu o linellau eraill yn y gyllideb.

8 Mae modd sicrhau'r rhagdybiaethau uchod, ond mae angen i'r Aelodau fod yn ymwybodol o bwysau ychwanegol ar y gyllideb a risgiau posib a allai effeithio ar y gyllideb y flwyddyn nesaf. Yn gyntaf, mae'n bosib y caiff dyfarniad cyflog ei wneud yn 2012. Os cytunir ar hyn gyda'r Cyd-Gyngor (NJC), sef Cyflogwyr Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub, mae'n debygol y caiff ei ôl-ddyddio i Orffennaf 2012 a byddai 1% hyn yn oed o gynnydd yn golygu gwneud £108,000 yn ychwanegol o arbedion bob blwyddyn i gwrdd â'r costau hyn.

9 Hefyd, mae aelodau Gweithgor y Cynllun Gwella wedi clywed y Prif Swyddog Tân yn mynegi ei bryderon y gallai arian gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grantiau uniongyrchol gael eu cwtogi neu eu diddymu y flwyddyn ariannol nesaf. Os daw hyn yn fwy tebygol, bydd yn destun papur ar wahân i'r Awdurdod er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynglŷn â darparu'r Gwasanaethau hynny a'r swyddi cysylltiedig sy'n cael eu cyllido gan arian grant .

## Argymhellion

10 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r strategaeth ariannol sydd yn y cynllun ariannol tymor canolig;
(ii) argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub y dylid mynd ar ôl y ffyrdd y cytunwyd arnynt eisoes o sicrhau'r arbedion hynny;
(iii) nodi'r risgiau sy'n ymwneud â gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2013-14;
(iv) derbyn rhagor o wybodaeth os gwireddir y risgiau posib hynny.